O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 1018 (Cy. 106)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2013

Gwnaed	*25 Ebrill 2013*
Yn dod i rym	*29 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 Caerdydd – Llangurig (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ebrill 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2013.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sydd i'r de o Gylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n ymestyn tua'r gogledd o bwynt sy'n 350 o fetrau i'r de o Gylchfan Abercynon ac sy'n cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan y gylchfan honno, y darn cyfan o'r lôn ar wahân tua'r gorllewin a'r allanfa tua'r de oddi ar y gylchfan am bellter o 35 o fetrau.

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2006**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 25 Ebrill 2013

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(2) O.S. 2006/1159/Cy.114.